# Cyflwyniad i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Am ddisgrifiad llawn o'r Cynllun, Cwestiynau Cyffredin a sut i ddefnyddio ein 'Canllaw Cyflym' a chael syniad faint o daliad gewch chi ar gyfer 2026, ewch i llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-canllaw neu sganiwch y Cod QR:

## MANYLION CYSWLLT DEFNYDDIOL

**Arolwg o Foch Daear Marw**
0808 169 5110

**Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)**
03000 200 301

**Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW**
0300 062 5004

**Corff Ardystio Bwyd o Ansawdd Cymru**
01970 636 688

**Cronfa Addington**
01926 620 135

**Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**
0300 065 3000

**Cyswllt Ffermio**
03456 000 813

**DPJ Foundation**
0800 587 4262

**EID Cymru**
01970 636 959

**Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS)**
0345 050 3456

**Lantra Cymru**
01982 552 646

**Llinell Gymorth Rheoli Llygredd Amaethyddiaeth o dan ofal ADAS**
01974 847 000

**Llinell Gymorth TB**
0800 496 1439

**Samariaid**
116 123

**Sefydliad Amaethyddol Llesiannol Brenhinol (RABI)**
0800 188 4444

**Tir Dewi**
0800 121 4722

**Y Rhwydwaith Cymunedau Ffermio (FCN)**
03000 111 999

# DYDDIADAU PWYSIG

| | |
|---|---|
| 31 HYDREF 2025 | Ymarfer Cadarnhau Data y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dod i ben |
| 1 IONAWR 2026 | Blwyddyn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dechrau |
| 2 MAWRTH 2026 | Dyddiad agor Ffurflen Cais Sengl 2026 |
| 15 MAI 2026 | Dyddiad cau Ffurflen Gais Sengl 2026 |

Sylwch fod dyddiadau Sioeau Teithiol yr SFS i'w gweld ar dudalen **16** a bod cyfnodau ymgeisio eraill y cynllun ar dudalen **17**.

Gallwch nawr ein dilyn i gael y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion gwledig ar ein tudalen Facebook newydd sbon.

Naill ai sganiwch y Cod QR, chwiliwch am **Cymru Wledig/Rural Wales** ar Facebook neu ewch i: **facebook.com/cymruwledig**.

Roedd yr wybodaeth yn y llyfryn hwn yn gywir ar ddiwrnod ei gyhoeddi (22 Medi 2025). I gael y dyddiadau, y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i wefan Llywodraeth Cymru: **LLYW.CYMRU**

OGL Hawlfraint y Goron 2025
WG52813
ISBN digidol: 978-1-80633-422-3
ISBN argraffau: 978-1-80633-424-7

# CYNNWYS



04
Y CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY (SFS) – CYFLWYNIAD A DISGRIFIAD

05
PWY SY'N GYMWYS I'R CYNLLUN

06
Y GWEITHREDOEDD CYFFREDINOL

13
TIR COMIN

14
SUT I BARATOI AR GYFER YR SFS

15
GWEITHREDOEDD OPSIYNOL A GWEITHREDOEDD CYDWEITHREDOL

16
SIOEAU TEITHIOL YR SFS

17
CYNLLUNIAU CYMORTH YCHWANEGOL

18
TALIADAU GWLEDIG CYMRU AR-LEIN A CYSWLLT FFERMIO

19
GWASANAETH CYSYLLTWYR FFERM

20
TANYSGRIFIWCH I E-GYLCHLYTHYR GWLAD

# Y CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY

**Bydd blwyddyn Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dechrau ar 1 Ionawr 2026.**

Mae'r llyfryn hwn yn grynodeb o'r Cynllun, a sut y gallwch baratoi ar ei gyfer.

Mae 'Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2026: disgrifiad o'r cynllun' ar gael yn **llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-2026-disgrifiad-or-cynllun**

O 2026, bydd gennych ddewis naill ai i ymuno â'r SFS, sef y prif gymorth fydd ar gael i ffermwyr neu barhau i hawlio'r Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS). Bydd taliadau'r BPS 40% yn llai yn 2026 a bydd wedi'i ddiddymu erbyn 2029.

Mae'r SFS wedi'i greu fel ei fod ar gael i bawb. Bydd ganddo dair haen: Yr Haen Gyffredinol, yr Haen Opsiynol a'r Haen Gydweithredol.

Bydd yr Haen Gyffredinol yn rhedeg fesul blwyddyn galendr ac yn cynnwys 12 Gweithred Gyffredinol (UA). Bydd gofyn i chi gynnal pob UA fydd yn berthnasol i'ch fferm.

Bydd gofyn ichi hefyd gadw at Sylfaen Reoleiddio'r SFS a'r Cod i Bawb.

Set o reoliadau y byddwch eisoes yn gyfarwydd â nhw yw Sylfaen Reoleiddio'r SFS, tebyg i'r safonau Trawsgydymffurfio, a bydd yna safonau ar fynediad y cyhoedd a rhywogaethau goresgynnol hefyd.

Mae'r 'Cod Cyffredinol' yn set o ofynion heb reoliadau sydd wedi'u cynllunio i ddiogelu pridd, coed, cynefinoedd a nodweddion y dirwedd. Rydym wedi ychwanegu gofyn i amddiffyn pridd y mae india corn yn tyfu arno. Ni fydd ffermwyr sy'n rhan o'r SFS yn cael tyfu india corn ar lethrau sy'n fwy serth na 12 gradd, ac os caiff ei dyfu ar gaeau sy'n agored i lifogydd, rhaid hau cnwd arall oddi tano.

Bydd canllaw manwl yn cael ei gyhoeddi yn nes ymlaen yn 2025 a fydd yn cynnwys y nodiadau technegol ar gyfer holl Ofynion a Gweithredoedd Cyffredinol y Cynllun.





# PWY SY'N GYMWYS I'R CYNLLUN

**Bwriad y Cynllun yw cefnogi ffermwyr actif:**

- sy'n cynnal gweithgareddau amaethyddol neu weithgareddau cysylltiedig ar dir amaethyddol,
- sydd ag o leiaf dri hectar o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru neu sy'n gallu dangos eu bod yn gweithio mwy na 550 awr o lafur safonol, ac
- sydd â rheolaeth lwyr ar y tir am o leiaf deg mis o'r flwyddyn galendr

Caiff canllaw manwl am ei effeithiau ar gytundebau tenantiaeth a thrwyddedau pori ei gyhoeddi cyn i'r Cynllun ddechrau.

# Y GWEITHREDOEDD CYFFREDINOL

## UA1 Iechyd pridd

**Profi pridd dros gyfnod o bum mlynedd i'ch helpu i benderfynu sut i gynllunio iechyd pridd er budd eich cnydau a'ch tir pori.**

Mae ein holl uchelgeisiau o ran cynhyrchu bwyd, adfer natur a chloi carbon yn dibynnu ar bridd iach. Bwriad y Weithred Gyffredinol hon yw eich helpu i gynnal profion pridd rheolaidd i'ch helpu i allu targedu penderfyniadau rheoli yn y dyfodol, megis faint o wrtaith sydd ei angen.

Rydym yn gofyn i chi brofi o leiaf 20% o'r tir sydd gennych sydd wedi'i wella yn amaethyddol sy'n cael gwrtaith neu galch wedi'i roi arno. Bydd yn rhaid i chi brofi o leiaf am Botasiwm (k), Ffosfforws (p), Magnesiwm (Mg), pH, a Deunydd Organig y Pridd.

Gallwch brofi mwy nag 20% y flwyddyn, cyn belled â bod yr holl dir perthnasol yn cael ei brofi mewn cyfnod o bum mlynedd. Bydd unrhyw brofion y byddwch wedi'u cynnal hyd at bedair blynedd cyn ymuno â'r Cynllun yn cyfrif tuag at yr UA hon, hyd yn oed os na wnaethoch chi brofi Deunydd Organig y Pridd.

Bydd angen ichi gofnodi canlyniadau profion pridd pob parsel tir perthnasol ar RPW Ar-lein. Bydd canlyniadau'r profion yn cael eu defnyddio ar gyfer monitro ar lefel genedlaethol ac nid er mwyn adnabod ffermydd unigol.

## UA2 Rheolaeth Integredig ar Blâu

**Cwblhau asesiad blynyddol o'r Cynhyrchion Diogelu Planhigion (PPPs) a ddefnyddir, a'r dulliau eraill a ddefnyddir i leihau'r defnydd o gemegau – a all arbed arian a lleihau gwastraff.**

Prif amcan Rheolaeth Integredig ar Blâu yw tyfu cnwd iach mewn ffordd sy'n amharu cyn lleied ag y medrir ar yr amgylchedd. Mae hynny'n golygu annog defnyddio'r dull mwyaf priodol o reoli clefydau, plâu neu chwyn gan gynnwys dulliau heb gemegau.

Trwy dargedu PPPs a defnyddio llai ohonynt, gallwch arbed arian a lleihau'r risgiau i iechyd pobl.

Os ydych chi neu'ch contractwyr yn defnyddio pryfladdwyr, chwynladdwyr, ffwngladdwyr, molysgladdwyr neu reoleiddwyr twf planhigion, rydym am ichi gwblhau Cynllun IPM blynyddol. Bydd hynny'n golygu nodi'r posibiliadau i ddefnyddio dulliau gwahanol fel cylchdroi cnydau, cnydau cydymaith, mathau sy'n gwrthsefyll plâu a chynefinoedd sy'n annog anifeiliaid sy'n bwyta plâu.

Os oes angen defnyddio PPP, dylech gofnodi enw'r cynnyrch, faint a ddefnyddir, math o gnwd, a'r dyddiad, amser, lleoliad a'r tywydd pan wnaethoch ei wasgaru.

## UA3 Meincnodi

**Cynnal asesiad mesur a monitro blynyddol i'ch helpu i wneud arbedion a gwelliannau.**

Ein nod yw eich helpu i elwa ar waith meincnodi sylfaenol gan ddefnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) syml i fonitro a gwella perfformiad eich fferm. Drwy hynny, byddwch yn gallu defnyddio data i ddeall yn well pa ddulliau rheoli sy'n llwyddiannus, a'ch helpu i addasu i newid, gwneud mwy o elw a gwneud lles i'r amgylchedd. Mae cysylltiad rhwng yr UA hon a gweithredoedd eraill, yn enwedig UA12: Iechyd a lles anifeiliaid.

Rydym yn gofyn i chi gwblhau dau Ddangosydd fesul sector (e.e. bwlch rhwng geni lloi, maint cnwd neu faint o famogiaid sy'n marw) ynghyd ag un Dangosydd "Fferm Gyfan" (e.e. cynhyrchu glaswellt, defnyddio gwrtaith, nifer mwydod/pryfed genwair).

Gallwch ddefnyddio offer Meincnodi Cyswllt Ffermio (FarmData+), neu gallwch ddatgan eich bod yn dilyn trefn Feincnodi gyfatebol a ddarperir gan ddarparwr arall.

At eich defnydd chi mae'r Dangosyddion Perfformiad. Ni fyddwn yn monitro eich data, a fyddan nhw ddim yn effeithio ar eich Taliad Cyffredinol.




## UA4 Datblygiad Proffesiynol Parhaus

**Adeiladu ar eich sgiliau a'ch gwybodaeth trwy ddysgu am amrywiaeth o bynciau gan gynnwys iechyd a diogelwch ar y fferm.**

Rydym yn gofyn i chi wneud chwe awr o Ddatblygu Proffesiynol Parhaus (DPP) y flwyddyn, ac elfen iechyd a diogelwch gorfodol ychwanegol.

Dylai'r dysgu eich helpu i gyflawni'r pedwar amcan hwn: cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy; lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo; cynnal a gwella ecosystemau; a gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol.

Gallwch ddewis o blith amrywiaeth eang o ddulliau dysgu, fel grwpiau trafod, dosbarthiadau meistr, hyfforddiant achrededig, e-ddysgu neu fentora. Gallwch ddysgu trwy Cyswllt Ffermio neu drwy ddarparwyr dysgu eraill.

Gallwch fod gam ar y blaen – os byddwch yn dewis dilyn modiwl e-ddysgu Cyswllt Ffermio yn 2025, bydd yn cyfrif tuag at chwe awr 2026. Mae'r modiwlau'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau o feincnodi a chynllunio busnes, i iechyd anifeiliaid a rheoli priddoedd, cynefinoedd a choetiroedd. **businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/e-ddysgu-achrededig**

## UA5 Cynnal cynefinoedd

**Cynnal cynefinoedd ar eich fferm er budd bywyd gwyllt a da byw sy'n pori.**

Mae hyn yn cynnwys cynefinoedd lled-naturiol, gan gynnwys rhostir, gwlyptir a glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau yn ogystal â chynefinoedd newydd fel coridorau glan nant.

Bydd holl gynefinoedd eich fferm yn dod o dan y Cynllun. Bydd taliad cynnal cynefin yn cael ei dalu i chi, ar sail arwynebedd y cynefinoedd sydd gennych.

Rydym wedi cynnwys disgrifiad a 'gweledigaeth' hirdymor ar gyfer pob math o gynefin, a gofynion i chi eu dilyn. Lle rydym wedi gallu gwneud hynny, rydym wedi ceisio osgoi'r gofynion rheoli caeth a ddefnyddiwyd mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn y gorffennol, er mwyn ichi allu gwneud mwy o'r penderfyniadau rheoli eich hun i fodloni'r gofynion.

Rydym yn eich annog i gwblhau ymarfer Cadarnhau Data'r SFS sydd ar gael ar RPW Ar-lein er mwyn gwybod faint o gynefin sydd gennych a pha fathau o gynefin y bydd angen i chi eu cynnal o dan y cynllun.

## UA6 Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella

**Creu digon o gynefin dros dro i fodloni Gofyn y Cynllun bod 10% o'ch fferm yn gynefin.**

Mae'r UA hon yn berthnasol dim ond os nad oes gennych ddigon o gynefin i fodloni'r gofyn o 10%.

Mae dewis o wahanol fathau o gynefinoedd y gallwch eu creu, sy'n addas i'ch fferm, fel gwyndwn amlrywogaeth, ymylon o wyndwn neu gymysgedd o ydau/cnydau protein ar gaeau âr heb eu chwistrellu a'u hau yn y gwanwyn. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ehangu'r rhestr hon i sicrhau bod digon o ddewis ar gyfer pob ardal.

Nid oes gofyn bod gennych 10% o gynefin ar ddechrau'r flwyddyn i gael ymuno â'r Cynllun. Fodd bynnag, dylech greu'r cynefin rydych wedi'i ddewis cyn cynhared yn y tymor ag sy'n bosibl i sicrhau eich bod yn bodloni'r 10% erbyn diwedd blwyddyn y cynllun.

Gan ein bod yn gofyn i chi greu cynefinoedd dros dro yn unig, ni fyddwch yn colli tir wedi'i wella.



## Y Gofyn i gynnal 10% yn gynefin

Un o ofynion y Cynllun yw bod o leiaf 10% o'ch fferm yn gynefin er lles bioamrywiaeth a chynhyrchu bwyd. Mae'r tir canlynol yn cyfrif tuag at eich gofyn o 10%:

- Pob cynefin lled-naturiol ar eich fferm sy'n cyfateb i'r diffiniad yn UA5: Cynnal cynefin.
- Coetir llydanddail sydd wedi cydio a choetir newydd ei blannu.
- Perthi/gwrychoedd mewn cyflwr da sydd o werth arwyddocaol i fioamrywiaeth (gweler y disgrifiad o berthi yn Atodiad 2 y Disgrifiad o gynllun SFS 2026).
- Cynefinoedd a sefydlwyd ers 2022 fel pyllau, perthi/gwrychoedd a choridorau ar lan nentydd.

Os nad oes gennych ddigon o gynefin, gallwch greu cynefin dros dro. (Gweler UA6)

## UA7 Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig

**Rheoli safleoedd dynodedig yn well drwy gytuno ar Gynllun Rheoli gydag CNC.**

Mae’r UA hon yn berthnasol i chi dim ond os oes safle dynodedig fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ar eich fferm. Mae’r safleoedd hyn yn rhannau pwysig o’ch fferm ac yn hanfodol i ni allu adfer natur.

Rydym yn gofyn i chi weithio mewn partneriaeth â CNC i ddatblygu Cynllun Rheoli Safle Dynodedig a allai gynnwys gweithgareddau sydd eu hangen i wella’r safle.

Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau’r weithred hon yw diwedd 2030. Pan fyddwch wedi cytuno ar Gynllun Rheoli, byddwn yn eich cefnogi i gynnal y gweithgareddau ynddo trwy Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol.

## UA8 Rheoli perthi/gwrychoedd

**Rheoli perthi mwy trwchus a mwy o faint i ddarparu cysgod i’ch da byw, cnydau a bywyd gwyllt.**

Bwriad yr UA hon yw creu perthi trwchus a fydd yn cynnig cysgod i dda byw ac yn cael cynhyrchu blodau, ffrwythau a hadau fel ffynhonnell fwyd i fywyd gwyllt.

Mae’r UA hon wedi’i hanelu’n benodol at y perthi hynny sy’n cael eu tocio neu eu torri bob blwyddyn ac y mae gennych reolaeth lwyr arnynt (o leiaf ar eich ochr chi o ffin sy’n cael ei rhannu).

Rydym yn gofyn i chi:

- Adael i’r berth rydych chi’n ei thorri dyfu’n fwy trwchus ac yn dalach trwy ei thocio i bwynt ychydig yn uwch a lletach bob tro.
- Cadw neu blannu o leiaf un goeden yn y berth bob 50m fesul parsel.
- Peidio â thocio na thorri’r un berth ddwy flynedd o’r bron – ac eithrio am resymau iechyd a diogelwch fel perth ar ochr y ffordd.

Bydd perthi sydd mewn cyflwr da yn cyfrif tuag at Ofyn y Cynllun bod 10% o bob fferm yn gynefin. Byddwn yn eich cefnogi i blannu perthi newydd fel Gweithred Opsiynol.

## UA9 Cynnal coetir

**Cynnal coetiroedd sydd eisoes yn bodoli er mwyn cynyddu'r manteision i dda byw a natur ac ar gyfer arallgyfeirio busnesau.**

Mae'r UA hon yn berthnasol dim ond os oes gennych goetiroedd llydanddail neu gonwydd sydd dros 0.1 hectar o faint.

Rydym yn gofyn i chi gynnal eich coetir drwy:

- Beidio â chwympo coed rhwng 1 Medi a 28 Chwefror, a dim mwy na $5m^3$ bob chwarter.
- Gwarchod llystyfiant daear brodorol, coed a gwreiddiau coed rhag niwed uniongyrchol neu anuniongyrchol yn sgil trin, cywasgu, defnyddio peiriannau neu ddefnyddio cemegau.
- Monitro pori a chadw effeithiau da byw yn fach. Os oes modd, dylech osgoi pori'r coetir yn y gwanwyn a dechrau'r haf, a pheidiwch â rhoi porthiant atodol i dda byw ynddo.

Bydd taliad cynnal coetir yn cael ei dalu ar yr holl goetiroedd y mae gennych reolaeth arnynt, heblaw'r coetir sydd eisoes yn derbyn taliad cynnal coetir gan Lywodraeth Cymru.

Bydd coetir llydanddail newydd ei blannu a choetir sydd wedi cydio'n cyfrif tuag at Ofyn y Cynllun bod 10% o bob fferm yn gynefin.

## UA10 Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd

**Cwblhau cynllun cyfle ar gyfer coed a pherthi/gwrychoedd ychwanegol i nodi lle gallent fod o fudd i'ch fferm.**

Mae'r UA hon wedi'i chynllunio i'ch cymell i blannu coed a pherthi ac mae'n gofyn ichi greu map ar RPW Ar-lein i ddangos lle ceir cyfleoedd i blannu. Gallwch nodi'r rhannau o'ch fferm fydd yn eich barn chi yn elwa o gael gwaith plannu newydd.

Bydd unrhyw goetiroedd neu berthi newydd sy'n cael eu plannu yn cyfrif at Ofyn y Cynllun bod 10% o bob fferm yn gynefin.

Rydym yn eich annog i ddechrau plannu cyn gynted â phosibl gan fanteisio ar y cynigion hael a hyblyg o ran coed a pherthi sydd ar gael fel Gweithredoedd Opsiynol.

Rydym yn gofyn i chi blannu o leiaf 0.1 ha o goed erbyn diwedd 2028. Bydd unrhyw goed a blennir nawr (neu ers 1 Ebrill 2022) yn cael ei ystyried fel rhan o'r 0.1 ha.

Efallai na fydd ffermwyr tenant yn cael plannu oherwydd eu cytundeb tenantiaeth. Dylen nhw siarad gyda pherchennog y tir am unrhyw gyfleoedd a allai ddod â budd i'r ddwy ochr.

Os yw'r tir yn gynefin eisoes, neu'n dir sy'n bwysig i rywogaethau â blaenoriaeth fel gylfinirod, efallai na fydd yn addas ar gyfer ei blannu.

## UA11 Amgylchedd hanesyddol

**Diogelu a chyfoethogi ein nodweddion treftadaeth pwysig er mwyn gwarchod ein cymeriad diwylliannol neilltuol.**

Mae'r UA hon yn berthnasol dim ond os oes gennych unrhyw un o'r canlynol ar eich fferm:

- Henebion cofrestredig
- Nodweddion yr Amgylchedd Hanesyddol
- Parciau a gerddi cofrestredig
- Adeiladau fferm traddodiadol.

Nid yw'r UA hon yn eich rhwystro rhag addasu neu drosi adeiladau fferm, ond eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau'ch bod wedi cael pob caniatâd a thrwydded gan yr awdurdodau perthnasol.

Gofynnwn ichi ddilyn yr egwyddor 'peidio â niweidio' a chynnal gwaith monitro, cynnal a gwarchod sylfaenol – gan ddibynnu ar y nodwedd unigol.

Er enghraifft, os oes prysgwydd yn tyfu a allai beryglu nodweddion hanesyddol tanddaearol, bydd angen i chi dynnu'r prysgwydd i'w atal rhag lledaenu tra'ch bod yn rhan yn y Cynllun. Ni fydd disgwyl ichi adfer y nodweddion i'w cyflwr gwreiddiol na mynd i'r afael â gwaith rheoli a chynnal sylweddol neu gostus.

## UA12 Iechyd Anifeiliaid

**Gweithio gyda'ch milfeddyg i gefnogi gwelliant parhaus yn iechyd a lles eich da byw trwy'r egwyddor 'gwell atal clwy na'i wella'.**

Mae'r UA hon yn berthnasol dim ond i berchnogion a cheidwaid da byw.

Rydym yn gofyn i chi fynd i'r afael â thair elfen sy'n ategu ei gilydd:

- Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC) – proses pedwar cam (mesur > cynllunio > gweithredu > adolygu) i ddelio ag agweddau ar gynhyrchu ac iechyd da byw y byddwch chi a'ch milfeddyg yn cytuno y gellid eu gwella.
- Asesiad bioddiogelwch o anifeiliaid sy'n dod i'r fferm – cynhaliwch asesiad bioddiogelwch gyda'ch milfeddyg i leihau unrhyw risgiau i fioddiogelwch wrth ddod ag anifeiliaid i'r fferm. Rydym hefyd yn gofyn i chi sicrhau bod ffiniau'ch fferm rydych chi'n gyfrifol amdanyn nhw yn rhwystro stoc rhag crwydro.
- Lles anifeiliaid – hyfforddiant ynghylch sut i sgorio cyflwr corff a sgorio symudedd y da byw rydych chi'n eu cadw. Cwblhewch a chofnodwch y sgôr gan nodi unrhyw gamau sydd angen eu cymryd. Dylech wneud hyn o leiaf unwaith y flwyddyn.

Gall Cyswllt Ffermio roi'r hyfforddiant sgorio cyflwr y corff a symudedd ichi.

# TIR COMIN



Mae'n hanfodol parhau i gefnogi porwyr tir comin. Bydd cymorth ar gyfer cominwyr o fewn yr SFS yn cynnwys:

- Taliad Cyffredinol i'r rheini sydd â hawliau pori ar dir comin ac sy'n gallu pori da byw addas arno.
- Taliadau cydweithredol i Gymdeithas Bori ar gyfer cyd-reoli'r pori – bydd hyn yn barhad o Gynllun Cynefin Cymru (Tiroedd Comin) ar gyfer 2026.
- Taliadau cydweithredol i Gymdeithas Bori neu grwp cydweithredol arall lle mae perchennog y tir comin yn caniatáu gweithgarwch rheoli trylwyrach. Bydd hyn ar gael yn 2026 trwy estyn y cynlluniau cydweithredol presennol ar raddfa tirwedd fel y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig.

# GWEITHREDOEDD OPSIYNOL A CYDWEITHREDOL

Yr Haen Gyffredinol yw'r lefel sylfaenol i ymuno â'r Cynllun.

Mae'r Haenau Opsiynol a Chydweithredol wedi'u cynllunio i roi dewis a hyblygrwydd i chi gynnal gweithredoedd mwy penodol.

Mae'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol sydd ar gael yn 2026 wedi'u grwpio'n 'themâu'.







**Themâu opsiynol:**

- Gwella iechyd y pridd a chnydau gorchudd amlrywogaeth
- Cynhyrchu cynaliadwy
- Rheoli cynefinoedd yn well
- Creu cynefinoedd parhaol a thros dro
- Gweithredu Rhaglen Waith y Safleoedd Dynodedig
- Rheolaeth well ar goetiroedd
- Creu coetir ac amaethgoedwigaeth (ar gael nawr)
- Creu ac adfer perthi/gwrychoedd
- Gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus uwch
- Gwella ansawdd dŵr, y defnydd a wneir o ddŵr a mesurau lliniaru llifogydd
- Gwella ansawdd aer a lleihau allyriadau amonia
- Ffermio organig (cymorth a throsi)
- Bioddiogelwch gwell

**Themâu cydweithredol:**

- Arloesi, ymchwil a datblygu
- Marchnad a chadwyni cyflenwi cydweithredol
- Gweithgarwch cydweithredol ar raddfa tirwedd

Gallai taliadau am gynnal Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol gynnwys cymysgedd o daliadau cyfalaf untro, neu daliadau refeniw dros sawl blwyddyn ar sail arwynebedd. Byddwn yn cyhoeddi mwy o fanylion am geisiadau a chyfraddau talu pan fyddwn ni'n gwybod mwy.

# SUT I BARATOI AR GYFER YR SFS

**Mae yna gamau y gallwch eu cymryd nawr er mwyn eich helpu i newid i'r Cynllun.**

- Cwblhau'r ymarfer i Gadarnhau'r Data sydd ar gael ar RPW Ar-lein tan 31 Hydref 2025, i chi wybod faint o orchudd o gynefin a choed sydd gennych. Mae hyn yn bwysig fel eich bod chi'n gwybod pa gynefinoedd y bydd angen i chi eu cynnal.
- Gellir defnyddio'r manylion o'r ffurflen Cadarnhau Data hefyd yn y Canllaw Cyflym i roi syniad ichi o werth Taliad Cyffredinol yr SFS ar gyfer 2026. Mae ar gael yn Cynllun Ffermio **Cynaliadwy: canllaw cyflym | LLYW.CYMRU**
- Mynd ar RPW Ar-lein a symud i ddefnyddio One Login GOV.UK. Bydd angen ei gyfeiriad e-bost ei hun ar bawb sydd wedi'i gofrestru ar eich CRN ac a fydd angen gallu gweld eich cyfrif RPW Ar-lein. Cewch ragor o fanylion yn **RPW Ar-Lein: symud o Borth Y Llywodraeth i One Login Gov.UK [HTML] | LLYW.CYMRU**
- Sicrhewch fod manylion eich busnes a'ch tir yn gywir. Os ydych wedi cael rhagor o dir, gallai hyn gael effaith ar eich gorchudd o gynefin a choetir. Llenwch y ffurflen RPW Rheoli fy Nhir. Cewch ragor o fanylion yn **RPW Ar-Lein: defnyddio 'rheoli fy nhir' | LLYW.CYMRU**
- Cofrestrwch gyda Cyswllt Ffermio i gael gwybodaeth, help ac arweiniad. Caiff rhagor o fanylion am hyn eu cyhoeddi yn yr hydref wrth gyfuno'r systemau RPW a Cyswllt Ffermio i'n helpu i roi'r SFS ar waith o 1 Ionawr 2026 ymlaen.

**Gallwch ennill y blaen ar rai o'r Gweithredoedd Cyffredinol. Er enghraifft:**

- UA1 Iechyd pridd – Bydd profion pridd a gynhelir hyd at bedair blynedd cyn i chi ymuno â'r Cynllun yn cyfrif tuag at yr UA hon.
- UA4 Datblygiad Proffesiynol Parhaus – bydd modiwlau Cyswllt Ffermio a gafodd eu cwblhau yn 2025 yn cyfrif tuag at yr UA hon ar gyfer 2026.
- UA10 Cynllun Cyfle Plannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd – ystyriwch ble y byddai'n fuddiol i'ch fferm i blannu coed a pherthi ychwanegol ac ystyriwch eu plannu nawr trwy gynlluniau creu coetir a pherthi sy'n bod eisoes.
- Edrychwch ar y templedi sydd ar gael i'ch helpu i gynnal rhai UAs fel UA2 Rheolaeth Integredig ar Blâu ac UA12 Iechyd a Lles Anifeiliaid. Byddwn yn diweddaru ein canllaw 'Pan ddaw'r Archwilydd' yn yr hydref. Bydd yn disgrifio'r holl gofnodion fferm y bydd angen eu llenwi fel rhan o'r Cynllun.
- Mae cynlluniau cymorth eraill ar gael gydol 2025 – [gweler tudalen 17].

# SIOEAU TEITHIOL Y CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY

Byddwn yn cynnal cyfres o sesiynau rhannu gwybodaeth, ichi allu siarad â staff Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm a Cyswllt Ffermio ynghylch sut i baratoi ar gyfer dechrau'r Cynllun. Bydd y sioeau teithiol yn para o 1pm tan 8pm.

Ewch i wales.business-events.org.uk/cy/digwyddiadau/sioeau-gwybodaeth-teithiol-y-cynllun-ffermio-cynaliadwy/ i gofrestru ymlaen llaw. Nid oes rhaid cofrestru, ond rydyn ni'n gofyn ichi wneud os medrwch er mwyn i ni allu gwneud yn siŵr bod gennym ddigon o staff i helpu pawb fydd yn dod.

Dyma fanylion y digwyddiadau a byddwn yn rhoi mwy o wybodaeth hefyd yn ein e-gylchlythyr Gwlad (fe welwch fanylion sut i danysgrifio i Gwlad ar dudalen 20).

| Lleoliad | Dyddiad |
|---|---|
| **Llangollen** (Pafiliwn Rhyngwladol, Ffordd yr Abaty, LL20 8SW) | 30 Medi |
| **Llanfair-ym-Muallt** (Hafod y Hendre, Maes y Sioe Frenhinol, LD2 3SY) | 1 Hydref |
| **Y Trallwng** (Y Farchnad Da Byw, Buttington Cross SY21 8SR) | 2 Hydref |
| **Bangor** (Neuadd Reichel, Prifysgol Bangor, LL57 2TW) | 7 Hydref |
| **Llanfair-ym-Muallt** (Hafod Hendre, Maes y Sioe Frenhinol, LD2 3SY) | 8 Hydref |
| **Aberaeron** (Moody Cow, Fferm Bargoed, Llwyncelyn SA46 0HL) | 13 Hydref |
| **Porthmadog** (Clwb Pêl-droed, Y Traeth, LL49 9PP) | 14 Hydref |
| **Llanymddyfri** (Clwb Rygbi Llanymddyfri, Banc yr Eglwys, SA20 0BA) | 22 Hydref |
| **Hwlffordd** (Pafiliwn Maes y Sioe, Heol Withybush, SA62 4BW) | 23 Hydref |
| **Rhaglan** (Neuadd Bentref Llanarth, Ffordd Groesonen, NP15 2AU) | 3 Tachwedd |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** (Gwesty'r Heronston, Heol Ewenni, CF35 5AW) | 4 Tachwedd |

Sylwch bydd trefn y sioeau teithiol hyn yn wahanol i ddigwyddiadau blaenorol, er enghraifft, ni fydd cyflwyniad canolog, ac ni fyddwn yn gallu'ch helpu gyda'r ymarfer Cadarnhau Data ar RPW Ar-lein i gadarnhau manylion y cynefinoedd ar eich fferm. I gael help i Gadarnhau Data, gan gynnwys apwyntiadau cymorth digidol, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW (gweler t18) neu aelod o'r tîm Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm (gweler t19).

# CYNLLUNIAU CYMORTH YCHWANEGOL

**Mae grantiau ar gael, a gall rhai'ch helpu i baratoi ar gyfer yr SFS.**

I weld manylion llawn y cynlluniau a restrir isod, ewch i llyw.cymru/taliadau-grantiau-gwledig.

| Teitl y Cynllun | Dyddiad agor ar gyfer ceisiadau | Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau |
|---|---|---|
| Grantiau Bach – Creu Coetir | Ar agor nawr | 30 Medi 2025 |
| Tyfu ar gyfer yr Amgylchedd (cnydau'r Gwanwyn a'r Haf) | 6 Hydref 2025 | 14 Tachwedd 2025 |
| Grant Creu Coetir | Ar agor nawr | 21 Tachwedd 2025 |
| Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau | 13 Hydref 2025 | 21 Tachwedd 2025 |
| Y Cynllun Garddwriaeth ac Arallgyfeirio Amaethyddol | 29 Medi 2025 | 5 Rhagfyr 2025 |
| Grantiau Bach – yr Amgylchedd (Carbon) | 3 Tachwedd 2025 | 12 Rhagfyr 2025 |
| Grantiau Bach - Dechrau Busnes Garddwriaeth | 3 Tachwedd 2025 | 16 Ionawr 2026 |
| Grantiau Bach – yr Amgylchedd (Tirwedd a Phryfed Peillio) | 12 Ionawr 2026 | 27 Chwefror 2026 |
| Grantiau Bach – Effeithlonrwydd | 12 Ionawr 2026 | 27 Chwefror 2026 |
| Cynllun Cynllunio Creu Coetir | Gellir cyflwyno cais unrhyw bryd | |

**Sylwer:** gall y dyddiadau ymgeisio newid. I weld y manylion diweddaraf, ewch i **llyw.cymru/cynlluniau-gwledig-dyddiadau-ymgeisio** neu sganiwch y cod QR.

# TALIADAU GWLEDIG CYMRU (RPW) AR-LEIN

RPW Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

Rydym yma i'ch helpu ac i'ch trin â pharch.

Rydyn ninnau'n disgwyl i chithau fod yn gwrtais ac i **beidio ag ymddwyn mewn ffordd annerbyniol**.

Rydym yn croesawu galwadau'n Gymraeg.

Gallwch ofyn cwestiwn trwy RPW Ar-lein unrhyw bryd.

### Dyma oriau agor y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid:

Llun-Gwener: 09:00 to 16:00

0300 062 5004

### Cyfeiriad post

Taliadau Gwledig Cymru

Blwch Post 251

Caernarfon

LL55 9DA

### Ar-lein

Rhaid anfon pob neges trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein.

Os nad ydych wedi cofrestru gyda RPW Ar-lein, ewch i'r adran sut i gofrestru ar y wefan: llyw.cymru/rpw-ar-lein-sut-i-gofrestru

---

# CYSWLLT FFERMIO

Mae Cyswllt Ffermio yn cynnig help sy'n trawsnewid rhagolygon busnes miloedd o ffermwyr.

Mae llawer o wasanaethau Cyswllt Ffermio wedi'u hariannu'n llawn. Mae cymhorthdal o hyd at 80% o'r gost ar gyfer gwasanaethau eraill.

I elwa ar bopeth sydd ar gael, bydd angen i chi gofrestru ar gyfer y rhaglen.

I gael cymorth Cyswllt Ffermio, cysylltwch â'r Ganolfan Wasanaeth ar **03456 000 813** neu ewch i **businesswales.gov.wales/farmingconnect/**

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

**03456 000 813**
*We welcome calls in Welsh*
**gov.wales/farmingconnect**

FARMING connect cyswllt FFERMIO

# Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm

## Gwasanaeth cymorth wedi'i ariannu'n llawn

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydym yn rhoi arweiniad i gwsmeriaid mewn perthynas â holl feysydd polisi ynghyd a cynlluniau ffarmwriaeth a gwledig a weinyddir gan Lywodraeth Cymru.





## Rydydm yma i helpu, cysylltwch a ni.

### CYMRU GYFAN

**Rita Jones** Cymraeg
07971 048619
rita.jones@gov.wales

### DE-DDWYRAIN CYRMU

**Jane Walters**
07721 894875
jane.walters@gov.wales

**Caitlin Harley** Cymraeg
07890 663351
caitlin.harley@gov.wales

### DE-ORLLEWIN

**Catrin Jones** Cymraeg
07968 159637
catrin.jones3@gov.wales

**Caitlin Harley** Cymraeg
07890 663351
caitlin.harley@gov.wales

### GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

**Armando Morgan** Cymraeg
07774 950639
armando.morgan@gov.wales

### GOGLEDD-ORLLEWIN CYMRU

**Janet Phillips** Cymraeg
07774 950654
janet.phillips@gov.wales

### CANOLBARTH CYMRU

**Steve Meredith**
07721 894873
stephen.meredith@gov.wales

**Eve Bridgewater**
07721 894869
eve.bridgewater@gov.wales

**Jane Walters**
07721 894875
jane.walters@gov.wales

FLS
Tîm Cysylltwyr Fferm
Farm Liaison Service

# Gwlad
## e-gylchlythyr

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



## TANYSGRIFIWCH I DDERBYN NEWYDDION AM FFERMIO A CHOEDWIGAETH

Cadwch eich busnes fferm neu goedwigaeth yn gyfredol gyda'r newyddion, y grantiau a'r polisïau diweddaraf.

Gallwch gofrestru i dderbyn Gwlad mewn e-bost drwy gymryd pedwar cam hawdd...

1. **Sganiwch y Cod QR**

   **neu ewch i llyw.cymru/cofrestrwch-ar-gyfernewyddion-amaethyddia-ethchoedwigaeth-gwlad**

2. **Cliciwch ar 'Mewngofnodwch'.**

3. **Cofrestrwch ar gyfer cyfrif newydd neu mewngofnodwch i gyfrif presennol trwy nodi'ch cyfeiriad e-bost, cyfrinair a chwblhau'r gwiriad diogelwch.**

4. **Sgroliwch i'r gwaelod a chlicio ar 'Cyflwyno'.**

   **Llwyddiant – Dylech nawr fod wedi tanysgrifio i dderbyn e-gylchlythyr Gwlad!**